

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hyn i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
16 Gorffennaf 2021

Rhan 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021 ("yr Offeryn").

Mae angen yr Offeryn er mwyn sicrhau cysondeb â newidiadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 15 Mawrth 2007 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol "yr OCR").

Bydd yr Offeryn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru ac o ran Parth Cymru, ym maes rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid. Mae'r Offeryn yn gymwys i Gymru a daw i rym ar 30 Gorffennaf 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir yr Offeryn hwn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y 'Ddeddf Ymadael'), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Gosodir yr Offeryn ar ffurf drafft o dan y weithdrefn gadarnhaol "gwnaed" ac mae datganiad y Gweinidog yn Rhan 2 o'r Atodiad yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

Mae'r Offeryn yn diwygio unrhyw ddiffygion sy'n parhau i fod yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252) ("Rheoliadau 2011"), sef yr angen i newid y dyddiad y mae gofynion hysbysu trosiannol ymlaen llaw ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn gymwys ohono.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Fe wnaeth y Ddeddf Ymadael drosi'r rhan fwyaf o gyfraith uniongyrchol gymwys yr UE, fel yr oedd yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, yn gyfraith ddomestig a chadw cyfreithiau a wnaed yn y DU sy'n gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Hefyd, fe wnaeth y Ddeddf Ymadael greu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth i ymdrin â diffygion a fyddai'n deillio o ymadawiad y DU. Mae adran 11 o'r Ddeddf Ymadael a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddi yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i ymdrin â diffygion.

Mae'r Offeryn yn diwygio diffygion sydd yn Rheoliadau 2011 o hyd. Mae Rheoliadau 2011 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â masnachu anifeiliaid a chynhyrchion perthynol, gan gynnwys sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer masnachu mewn anifeiliaid byw a deunydd genetig, ac ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw, deunydd genetig a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Hefyd, mae Rheoliadau 2011 yn pennu amrywiol droseddau, ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wahardd mewnforio i Gymru unrhyw anifail neu gynnyrch pe byddai brigiadau o achosion o glefydau y tu allan i'r DU.

Mewnosodwyd Atodlen 5 i Reoliadau 2011 gan reoliad 32 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1612) (Cy. 337). Mae Atodlen 5 yn gymwys i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy'n tarddu o (a) tiriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig; neu (b) trydedd wlad heblaw tiriogaeth sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig lle bo'r cynhyrchion neu'r anifeiliaid byw dan sylw, cyn cael eu mewnforio i Gymru—

- (i) wedi eu cyflwyno i safle rheoli ar y ffin a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru;
- (ii) â Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin yn cyd-fynd â hwy sydd wedi ei llenwi er boddhad yr awdurdod perthnasol; a
- (iii) wedi eu rhaghysbysu.

Fe wnaeth Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/384) (Cy. 122) ("Rheoliadau Diwygio 2021") yn flaenorol ddiwygio'r dyddiad 1 Ebrill 2021 ym mharagraffau 5 a 6 o Atodlen 5 i Reoliadau 2011 i 31 Gorffennaf 2021 er mwyn cysoni â'r newidiadau a wnaed i deddfwriaeth arall gan Reoliadau Masnach a Rheolaethau Swyddogol (Trefniadau Trosiannol ar gyfer Hysbysiadau Ymlaen Llaw) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/429), ac er mwyn cysoni ag Atodiad 6 o'r OCR (a fewnosodwyd gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1481), sy'n nodi'r gofynion ar gyfer y gwiriadau rhaghysbysu sy'n darparu bod trefniadau trosiannol i ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Mae'r Offeryn yn awr yn diwygio ymhellach y cyfeiriad at 31 Gorffennaf er

mwyn cysoni â'r newid polisi y cytunwyd arno gan y pedair gweinyddiaeth, fel y nodir ym mharagraff 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd yr Offeryn yn gohirio cyflwyno'r gofynion rhaghysbysu ar gyfer nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid o 31 Gorffennaf i 1 Hydref 2021.

Yn dilyn adolygiad gan swyddogion o'r cynllun gweithredu ar gyfer rheolaethau mewnforio gan gynnwys gwiriadau lechydol a Ffotoiechydol ar anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyflwyno gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Mae hyn oherwydd bod busnesau ac awdurdodau cymwys, ers diwedd y cyfnod pontio, wedi gorfod addasu a bodloni gofynion sylweddol newydd yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE.

Mae hyn yn ategu'r amserlen ddiwygiedig sy'n gohirio cyflwyno gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin. Bydd y gwiriadau hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam ('y cyfnod graddoli trosiannol'), o 1 Hydref 2021 hyd 1 Mawrth 2022.

Bydd yr amserlen ddiwygiedig hon yn rhoi mwy o amser i fusnesau ac awdurdodau cymwys baratoi wrth iddynt addasu i'r berthynas fasnachu newydd ac adfer yn sgil effeithiau hirach a dyfnach pandemig COVID-19.

5. Beth mae'r offeryn yn ei wneud

Mae'r Offeryn yn diwygio Rheoliadau 2011 fel bod Atodlen 5 yn parhau mewn grym hyd at ddiwedd y cyfnod graddoli trosiannol, ac mae'n diwygio'r dyddiad 31 Gorffennaf 2021 ym mharagraffau 5(3) a 6(1)(c) o Atodlen 5 ac yn rhoi 1 Hydref 2021 yn ei le. Mae'r Offeryn hwn hefyd yn mewnosod cyfeiriad at y diffiniad cywir mewn deddfwriaeth ar gyfer y cyfnod graddoli trosiannol.

Mae paragraff 5(3) o Atodlen 5 i Reoliadau 2011 yn ymwneud â'r gofyniad rhaghysbysu ar gyfer nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mae paragraff 6(1)(c) o Atodlen 5 yn ymwneud â'r gofyniad bod rhaid i nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid fod â thystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnfurion o drydedd wlad yn cyd-fynd â hwy, ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn cysoni â newidiadau a wneir i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol gan Lywodraeth y DU ar draws Prydain gyfan. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn mewn effaith yn gohirio cyflwyno gwiriadau dogfennol a gwiriadau ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin.

6. Ymgynghori

15. Fe wnaeth Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban anfon ymgynghoriad preifat allan ym mis Mehefin 2021, yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar ohirio gweithredu'r weithdrefn mewnfurion fesul cam. Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r oedi, neu a oeddent yn teimlo y dylai'r amserlen wreiddiol a drefnwyd, yn cyflwyno rheolaethau Gwiriadau Iechydol a Photoiechydol llawn, gael effaith fel y bwriadwyd iddynt ei chael o 31 Gorffennaf.

16. Mae'r newidiadau a wneir yn ddiwygiadau sy'n ymwneud â gweithredu i gyfraith bresennol yr UE a ddargedwir er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn adlewyrchu newidiadau a wnaed yn ystod y cyfnod pontio a'i bod yn weithredol yng nghyd-destun y DU. Yn sgil trafodaethau parhaus, rydym yn ymwybodol y byddai'n well gan rhanddeiliaid y diwydiant i'r rheolaethau ar gyfer Prydain ar fewnfurion o'r UE gael eu cyflwyno'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach, gan eu bod yn teimlo yn gyffredinol ei bod yn annheg bod mewnfurion o Brydain wedi wynebu rheolaethau o'r fath gan yr UE ers mis Ionawr 2021. Roedd yr ymatebion ehangach gan rhanddeiliaid yn amlygu'r angen i'r llywodraeth roi eglurder ar drefniadau ffiniau yn y dyfodol ar fewnfurion ac ar allfurion, ond roeddent yn dangos bod consensws eang a chyffredinol bod y newidiadau a ddarperir â'r O.S. hwn i amserlen y rheolaethau yn angenrheidiol er mwyn paratoi'r sector yn effeithiol, a byddai methiant i weithredu'r newidiadau hyn erbyn diwedd mis Gorffennaf fel y darperir gan yr Offeryn hwn yn creu gofynion "amhosibl" i fewnforwyr eu bodloni ac i'r awdurdodau cymwys eu darparu.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

17. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Ystyriodd swyddogion bod hon yn sefyllfa eithriadol ac yn sefyllfa frys. Mae angen i'r diwygiadau fod yn eu lle erbyn 30 Gorffennaf er mwyn sicrhau cysondeb ledled

y DU. Er bod disgresiwn wrth i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau statudol, byddai dilyn dull gweithredu gwahanol i'r gyfundrefn mewnforio ar gyfer Prydain gyfan a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn arwain at ddryswch i fasnachwyr ac yn amharu ar fasnach. Yn benodol, gallai nwyddau a fewnforir i'r DU wynebu gofynion mewnforio gwahanol mewn gwledydd gwahanol yn y DU, ond yn gallu symud yn rhydd o fewn y DU ar ôl iddynt gael eu mewnforio. Ni ragwelir unrhyw effaith, neu ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus, a bydd y rheoliadau hyn yn rhoi rhagor o amser i fasnachwyr ac asiantaethau i baratoi ar gyfer cyfundrefn newydd yn ystod cyfnod adfer yn sgil effeithiau Covid, gyda'r rheoliadau hyn yn rhan hanfodol o weithredu'r oediad hwn.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r Atodiad hwn.

Datganiad	Ymhle mae'r gofyniad	I bwy y mae'n berthnasol	Beth sydd ganddo yn ofynnol
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud O.S. Negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r O.S. yn gwneud dim mwy na'r hyn sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam rhesymol i'w

		23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	gymryd.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, a wneir i Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai dim ond mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm.

Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	<p>Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y Goron nac unrhyw Awdurdod Datganoledig.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y Goron nac unrhyw Awdurdod Datganoledig.</p>	Datganiad i egluro pam ei bod yn briodol creu pŵer o'r fath sydd wedi'i is-ddirprwyo.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr O.S. gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad o briodoldeb

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad a ganlyn mewn cysylltiad â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021 yn gwneud dim mwy na'r hyn sy'n briodol. Mae hyn yn wir oherwydd mai dim ond er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi o ymadael â'r UE y mae'r holl newidiadau'n cael eu gwneud.”

2. Rhesymau da

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad a ganlyn mewn cysylltiad â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021, ac rwyf wedi dod i'r casgliad bod hwn yn gam rhesymol i'w gymryd. Mae manteision i fusnesau ac i awdurdodau lleol sy'n gorfod paratoi ar gyfer cyfundrefn mewnforio newydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn ystod y pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer.”

3. Cydraddoldeb

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

“Nid yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021 yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad a ganlyn mewn cysylltiad â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

4. Esboniadau

Mae'r datganiad Esboniadau wedi'i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

5. Troseddau

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

6. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Nid yw'n berthnasol/angenrheidiol.

7. Brys

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad a ganlyn mewn cysylltiad â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, oherwydd brys, mae'n angenrheidiol gwneud Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2021, heb i ddrafft o'r Rheoliadau gael ei osod gerbron y Senedd, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd”.

Mae hyn oherwydd bod Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad bod angen y weithdrefn 'gadarnhaol gwnaed ar frys' y darperir ar ei chyfer yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn sicrhau y daw'r offeryn hwn i rym cyn 31 Gorffennaf 2021. Os na wneir hynny, o 31 Gorffennaf 2021 ymlaen, bydd rhaid i fewnforwyr gydymffurfio â mesurau rheoli newydd penodol wrth fewnforio nwyddau anifeiliaid penodol.

Mae defnyddio'r weithdrefn hon yn dal i ganiatáu craffu, a bydd angen i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau er mwyn iddynt aros mewn grym.”